DEUNYDDIAU ATEGOL

# BETH YW TIRWEDD DDYNODEDIG?

Mae dysgwyr yn ystyried y geiriau ‘tirwedd’ a ‘dynodedig’ ac yn archwilio beth yw ‘tirwedd ddynodedig’ a pha rinweddau arbennig a allai fod ganddi. Maen nhw’n dod i wybod am yr wyth tirwedd ddynodedig yng Nghymru, yn meddwl pam maen nhw wedi’u dynodi, yn eu lleoli ar fap ac yn penderfynu pa un yw’r agosaf at eu cartref. Mae dysgwyr yn darganfod pam mae tirweddau dynodedig yn bwysig, cyn iddynt archwilio eu cymdogaeth a dewis ardal yr hoffent ei gweld yn dirwedd ddynodedig. Yn olaf, maent yn myfyrio ar rinweddau arbennig eu tirwedd ddynodedig ac yn cynhyrchu hysbyseb i annog ymwelwyr.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae’r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a’r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â’r rhyngrwyd a mynediad i’r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio golygfeydd a synau, e.e. tabled, ffôn clyfar, papur a phensiliau, ac ati.
Offer mesur, e.e. pedomedr, tâp mesur hir ar gyfer chwaraeon.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH MAE 'TIRWEDD DDYNODEDIG' YN EI OLYGU I CHI?

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw archwilio beth mae'r ymadrodd 'tirwedd ddynodedig' yn ei olygu iddyn nhw ac fel man cychwyn byddwch yn gofyn iddyn nhw ystyried pob un o'r geiriau yn yr ymadrodd.

### Sgriniau 3-4

Gwahoddwch y dysgwyr i dynnu llun neu fraslunio'u hoff dirwedd.

Yna, gofynnwch iddyn nhw egluro wrth bartner pam maen nhw wedi dewis y dirwedd hon.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dirwedd ydych chi wedi'i darlunio? Pam?
- Pam mai dyma eich hoff dirwedd?
- Pa nodweddion ydych chi'n eu hoffi orau? Pam?

### Sgriniau 5-7

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y dair sgrin nesaf yn annibynnol, neu danghoswch y dair sgrin i'r dysgwyr. Ar y sgriniau hyn ceir delweddau o dirweddau Cymru. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau ar bob sgrin gyda phartner. Gallech chi drafod eu hymatebion gyda'r dosbarth.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddelwedd o dirwedd yw eich ffefryn? Pam?
- Pa ddelweddau sy'n debyg i'r dirwedd y gwnaethoch chi dynnu llun ohoni? Pam maen nhw'n debyg?
- Pa ddelweddau sy'n eich synnu? Pam maen nhw'n eich synnu chi?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod eu diffiniad o 'dirwedd' gyda phartner. Gallech chi ofyn iddyn nhw sut mae eu diffiniad wedi newid ers dechrau'r dasg.

## Sgrîn 9

Dangoswch y diffiniad o dirwedd a geir yn National Geographic i'r dysgwyr: 'Mae tirwedd yn rhan o arwyneb y Ddaear y gellir ei gweld ar un adeg o un lle'. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau ar y sgrin gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r diffiniad yn cymharu â'ch syniadau chi?
- Sut mae'r diffiniad yn wahanol?
- Sut mae'r diffiniad yn debyg?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i feddwl a thrafod ym mha gyd-destunau maen nhw wedi clywed y gair 'dynodedig' yn cael ei ddefnyddio ac i rannu eu syniadau gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd ydych chi wedi clywed y gair 'dynodedig' yn cael ei ddefnyddio o'r blaen?
- Beth ydych chi'n meddwl yw ei ystyr? Pam?
- Pa blant ac oedolion sydd â swydd benodol yn yr ysgol? Beth maen nhw'n ei wneud? Sut gallech chi ddefnyddio'r gair 'dynodedig' i ddisgrifio'r swyddi maen nhw'n eu gwneud?
- Pa ardaloedd yn yr ysgol sydd ag enw neu ddefnydd penodol? Sut gallech chi ddefnyddio'r gair 'dynodedig' i ddisgrifio'r ardaloedd hyn?

## Sgrîn 11

Rhannwch y ddau ddiffiniad a ddaw o eiriadur, gyda'r dysgwyr:

- 'penodi (rhywun) i swyddfa neu swydd benodedig'
- 'rhoi statws neu enw penodedig yn swyddogol i (rywun/rywbeth)'

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y diffiniadau hyn gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r diffiniadau hyn yn cymharu â'ch rhai chi?
- Sut mae'r diffiniadau'n wahanol i'ch rhai chi?
- Sut mae'r diffiniadau yn debyg i'ch rhai chi?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

Eglurwch wrth y dysgwyr ein bod ni nawr yn mynd i roi'r ddau air at ei gilydd i geisio deall ystyr y term 'tirwedd ddynodedig'.

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y sgrin sy'n cynnwys 'pennau'n siarad'. Gofynnwch iddyn nhw awgrymu gyda phwy maen nhw'n cytuno a pham.

## Sgriniau 13-14

Gan ddefnyddio'r syniadau oedd ganddyn nhw yn gynharach yn y dasg, anogwch grwpiau bach o ddysgwyr i ystyried beth yw 'tirwedd ddynodedig' yn eu barn nhw ac i lunio map meddwl i ddangos eu ffordd o feddwl.

Er mwyn helpu'r dysgwyr i lunio map meddwl ystyrlon, rhannwch y cwestiynau ar y sgrin.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth efallai yw tirwedd ddynodedig? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam y byddai tirwedd yn cael ei gwneud yn ardal ddynodedig? At ba ddiben(ion)?
- Pwy fyddai'n penderfynu gwneud ardal yn dirwedd ddynodedig? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa nodweddion fyddai i dirwedd ddynodedig, efallai? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa rinweddau arbennig fyddai i dirwedd ddynodedig, efallai?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

TASG 2

# BETH YDYM NI'N EI WYBOD AM Y TIRWEDDAU DYNODEDIG YNG NGHYMRU?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddarganfod mwy am ystyr 'tirwedd ddynodedig' a beth yw'r rhain yng Nghymru.

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr beth maen nhw'n ei wybod am y tirweddau dynodedig yng Nghymru cyn dechrau'r dasg.

## Sgrîn 3

Ar y sgrin gyntaf, darperir peth gwybodaeth am y tirweddau dynodedig, megis beth yw ystyr Parc Cenedlaethol a Tirwedd Cenedlaethol. Hefyd, darperir rhai ffeithiau am dirweddau dynodedig eraill yn y byd.

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i geisio paru enwau'r tirweddau dynodedig â'u lleoliad ar fap o Gymru. Y tirweddau dynodedig yw:

- Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr
- Tirwedd Cenedlaethol Llŷn
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol sy'n holi ynghylch yr hyn y maent yn ei wybod am y tirweddau dynodedig.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'r wyth o dirweddau dynodedig ydych chi wedi clywed amdanynt?
- Pa dirweddau dynodedig ydych chi wedi ymweld â nhw? Pryd? Pam aethoch chi yno?
- Beth ydych chi'n ei gofio am yr ymweliad? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 6

Mae'r map yn dangos rhinweddau arbennig pob tirwedd ddynodedig. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried holl rinweddau arbennig y tirweddau a dewis un dirwedd ddynodedig nad oedden nhw'n gwybod llawer amdani. Yna, anogwch nhw i ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rinweddau arbennig o'r dirwedd fyddai'n gwneud i chi fod eisiau ymweld â hi? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgriniau 7-8

Ar y sgrin, cyflwynir rhai ffeithiau am dirweddau dynodedig yng Nghymru. Gofynnir i ddysgwyr ystyried pam mae gennym ni dirweddau dynodedig.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y ffurfiwyd tirweddau dynodedig, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl bod pobl eu hangen yn y 1950au cynnar?
- Pam ydych chi'n meddwl bod tirweddau dynodedig yn bwysig heddiw?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen am Dirweddau Cymru a thrafod y cwestiynau gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr pob un o'r ffocysau hyn?
- Sut allech chi esbonio'r ffocysau i ddysgwyr iau?

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o ffocysau Tirweddau Cymru o'r rhestr a thrafod y cwestiynau gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut y cefnogi'r y ffocws hwn yn yr ardal yr ydych yn byw ynddi? Beth sy'n digwydd?
- Os y byddech chi'n byw mewn tirwedd ddynodedig:
    - Sut fyddech chi'n gwybod bod hyn yn ffocws? Beth allech chi ei weld neu ei glywed neu sylwi arno?
    - Sut gallai'r ffocws hwn effeithio ar eich bywyd chi neu fywyd eich teulu? Pam?

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r map i ddod o hyd i'w hysgol ac i ddysgu am y dirwedd ddynodedig agosaf at eu hysgol. Gallai'r dysgwyr ddefnyddio graddfa'r map i ddarganfod pellteroedd a'u cymharu â chyfrifiadau a syniadau pobl eraill. Edrychwch ar 'map mwy' i weld graddfa'r map. I'r gwrthwyneb, gallent ddefnyddio mapiau papur.

Gallant ystyried dulliau teithio a sut maent yn dehongli 'y ffordd orau' o deithio. Mae cyfleoedd fan hyn i ystyried pa mor hawdd yw teithio a sut mae gwahanol ddulliau trafnidiaeth yn cael effeithiau gwahanol ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un yw'r dirwedd ddynodedig agosaf at eich ysgol?
- Pa mor bell yw'r dirwedd ddynodedig o'ch ysgol? Sut gallwch chi weithio allan beth yw'r pellter?
- Sut allech chi deithio i'ch tirwedd ddynodedig agosaf? Pa un fyddai'r ffordd orau? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgriniau 12-16

Ar y 5 sgrin nesaf, mae cwis rhyngweithiol i ddysgwyr geisio dangos beth maen nhw wedi'i ddysgu am dirweddau dynodedig. Gan fod yr holl atebion ar sgriniau blaenorol, gofynnwch i'r dysgwyr roi cynnig ar y cwis heb gyfeirio'n ôl. Felly os ydynt yn ansicr ynghylch beth yw'r ateb, gofynnwch iddynt geisio ei weithio allan eu hunain.

TASG 3

# BLE FYDDECH CHI'N EI DYNODI YN DIRWEDD DDYNODEDIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n treulio peth amser yn yr ardal o amgylch yr ysgol ac yn nodi ardal y bydden nhw'n ei henwebu i gael ei hystyried yn dirwedd ddynodedig. Unwaith y caiff yr ardal ei henwebu, byddant yn cynhyrchu hysbyseb i annog eraill i ymweld â'u tirwedd ddynodedig.

## Sgriniau 3-4

Ar y ddwy sgrin gyntaf, rhoddir gwybodaeth i ddysgwyr am ddisgwyliadau ar gyfer y dasg. Cyn i chi fynd â nhw allan i'r awyr agored, mae cwestiynau iddyn nhw eu trafod yn eu grwpiau, er mwyn rhoi cymorth iddyn nhw ddewis tirwedd ddynodedig dda.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth fyddai'n gwneud tirwedd ddynodedig dda? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 5

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored er mwyn iddynt benderfynu ar eu tirwedd ddynodedig a chymryd mesuriadau a ffotograffau, creu clipiau fideo/sain a/neu frasluniau i'w defnyddio yn eu hysbyseb.

## Sgrîn 6

Mae map rhyngweithiol yn galluogi dysgwyr i ddod o hyd i'w tirwedd ddynodedig a thynnu sgrinlun i ddangos i eraill ble mae hi. Edrychwch ar 'map mwy' i weld graddfa'r map. Hefyd, rhoddir ystyriaeth i'w maint, unrhyw rinweddau arbennig a sut y gallai ymwelwyr deithio i'r dirwedd.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw arwynebedd eich tirwedd ddynodedig? Sut gallwch chi gyfrifo hyn?
- Beth yw rhinweddau arbennig eich tirwedd?
- Sut gallai pobl gyrraedd eich tirwedd ddynodedig? Pa un fyddai'r ffordd orau? Pam?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i gynhyrchu hysbyseb i annog eraill i ymweld â'u tirwedd ddynodedig. Gallent ddefnyddio unrhyw gyfrwng i wneud hyn, ond efallai mai fideo neu gyflwyniad byr fyddai orau.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion sydd gan eich tirwedd ddynodedig? Beth sy'n gwneud y nodweddion hyn yn ddiddorol i eraill?
- Pa rinweddau arbennig sydd i'ch tirwedd ddynodedig? Pam ydych chi'n meddwl bod y pethau hyn yn arbennig?
- Sut byddech chi'n annog pobl i ymweld â'ch tirwedd ddynodedig?
- Sut gallech chi ddefnyddio'r rhinweddau a'r nodweddion arbennig i'ch helpu chi?
- Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn eich hysbyseb? Pam?
- Sut byddwch yn sicrhau mai dim ond 2 funud o hyd yw eich hysbyseb?
- Pwy yw'r gynulleidfa ar gyfer eich hysbyseb? Sut byddwch chi'n sicrhau bod eich hysbyseb yn denu'r gynulleidfa hon?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno eu hysbysebion i'r dosbarth.

## Sgrîn 9

Er mwyn iddynt hunan-werthuso eu hysbysebion, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pe gallech chi wneud hysbyseb arall ar gyfer eich tirwedd ddynodedig, beth fyddech chi'n ei newid er mwyn gwella eich hysbyseb?

Gallech chi drafod pa mor dda rydych chi…

- wedi arddangos ei:
    - nodweddion diddorol
    - rhinweddau arbennig, a pham eu bod yn arbennig
- wedi ennyn diddordeb eich cynulleidfa
- wedi cadw o fewn eich terfyn amser.

- Beth arall allech chi fod wedi'i gynnwys yn eich hysbyseb? Pam fyddai hyn wedi ei gwella?